## Ysgrifennu Enfys

Ysgrifennwch eich gair â phensil.

Ysgrifennwch dros bob gair 3 gwaith.

Bob tro yr ewch dros y gair, defnyddiwch LIW GWAHANOL.

## Brawddegau Dwl

Ysgrifennwch frawddeg ddwl gan ddefnyddio eich geiriau sillafu, un ym mhob brawddeg.

Tanlinellwch eich geiriau sillafu!

E.e.: Mae llygod yn bwyta cathod!

## Geiriau Cudd

Os cymerwch ofal, fe welwch enfys!

Tynnwch lun a'i liwio. Cuddiwch eich geiriau sillafu yn y llun.

## Geiriau ymlaen a nol

Ysgrifennwch eich geiriau sillafu yn gywir ac yna o'r lythyren olaf i'r cyntaf! Ysgrifennwch yn daclus!

Enghraifft: heddiw widdeh

## Geiriau Pyramid

Ysgrifennwch eich geiriau sillafu un llythyren ar y tro i greu pyramid.

Enghraifft: llaw

ll
lla
llaw

## Creu Gweithgaredd

Allwch chi feddwl am ddull hwylus i ymarfer eich geiriau sillafu?

Ewch ati!

Esboniwch eich gweithgaredd i'r grŵp!

## Trefn ABC

Ysgrifennwch eich geiriau sillafu mewn rhestr. Yna, ysgrifennwch y geiriau yn ôl trefn yr wyddor.

Am bwyntiau bonws, ysgrifennwch hwynt yn nhrefn yr wyddor o'r diwedd i'r dechrau!

## Stori Stori

Ysgrifennwch stori gan ddefnyddio'r HOLL eiriau yn eich rhestr sillafu. Tanlinellwch bob gair o'r rhestr sillafu sydd yn eich stori.

## Llun a Label

Tynnwch lun i ddangos pethau eich geiriau sillafu.
Labelwch y llun gyda label lliwgar.

## Geiriau Sgwigl

Ysgrifennwch eich geiriau sillafu ddwywaith. Y tro cyntaf yn eich llawysgrifen taclus arferol. Yr ail dro gyda llythrennau sgwigl!

## Llafariaid Glas

Ysgrifennwch eich geiriau sillafu.
Ysgrifennwch dros y llafariaid yn y geiriau â phensil glas.

Llafariaid = a e i o u w y

## Llythrennau Swigod

Ysgrifennwch eich geiriau sillafu mewn llythrennau swigod. Yna, lliwiwch tu fewn i'r swigod yn lliwgar.

## Tair gwaith!

Ysgrifennwch bob gair sillafu tair gwaith. Y tro cyntaf â phensil, yr ail dro â chreion, y trydydd tro â phen ffelt.

Ysgrifennwch yn daclus!

## Cerdd Acrostig

Dewiswch air o'r rhestr.

Ysgrifennwch gerdd acrostig i'r gair.

Tynnwch lun addas i addurno.

E.e.: coch

**C**alon a gwaed
**O**ren sy'n dilyn
**Ch**wiban y reff a'r garden

## Adio Geiriau

Mae gwerth i bob llythyren yn y gair.

Cytseiniaid = 10 marc

Llafariaid = 5 marc

Ysgrifennwch eich geiriau yna adiwch gwerth bob gair.

*E.e.: meddai = 10+5+10+5+5= 35*

## Llythyr arwr


Ysgrifennwch lythyr i'ch arwr. Rhaid defnyddio bob gair ar eich rhestr sillafu yn eich llythyr.

Tanlinellwch bob gair wrth i chi eu defnyddio.

# Siapiau Sillafu

Tynnwch lun siapiau, un ar gyfer bob gair yn eich rhestr sillafu.
Ysgrifennwch un gair o fewn bob siâp.

E.e.




# Jigso Geiriau

Ysgrifennwch lythrennau'r gair ar ddarn o bapur â bwlch rhwng bob llythyren. Torrwch y papur fel bod bob llythren ar ddarn unigol. Cymysgwch y darnau. Ail osodwch y llythrennau i greu'r gair a'u gludo'n ddiogel.

# Cerdd Sillafu

Ysgrifennwch gerdd gan ddefnyddio geiriau eich rhestr sillafu.
Tanlinellwch y geiriau o'r rhestr.

Cewch arddurno eich cerdd!

# Cylch Cytseiniaid

Ysgrifennwch eich geiriau o'r rhestr sillafu yn daclus.
Edrychwch dros y geiriau.
Rhowch gylch o gwmpas pob cytsain sydd yn y geiriau.

## Cylch Llafariaid

Ysgrifennwch eich geiriau o'r rhestr sillafu yn daclus.
Edrychwch dros y geiriau.
Rhowch gylch o gwmpas pob llafariad sydd yn y geiriau.

## Pos Sillafu

Ysgrifennwch gliwiau ar gyfer eich geiriau sillafu.
Cofiwch roi'r atebion hefyd!
E.e. Rwy'n grwn, yn flasus ac yn fwyd iach sy'n tyfu ar goeden. Ateb: Afal

## Cysylltu'r Dotiau

Ysgrifennwch eich geiriau o'r rhestr sillafu mewn dotiau.
Cysylltwch y **dotiau** drwy ffurfio'r llythrennau â phensiliau lliw.

## Odl, dodl!

Ysgrifennwch eich geiriau sillafu mewn rhestr, un o dan y llall.
Nesa at y gair ysgrifennwch air sy'n odli gydag ef.
E.e. modrwy dwy

## Geiriau Hysbyseb

Ysgrifennwch hysbyseb 30 eiliad sy'n defnyddio eich geiriau sillafu chi i gyd!

Darllenwch eich hysbyseb i'r grŵp.

## Cod Cyfrwys

Ewch ati i greu symbol ar gyfer pob llythyren yn yr wyddor. Ysgrifennwch y gair ar eich rhestr sillafu yn y côd ac yna'n gywir.

E.e. →▷◢⇦⇦⇦▷◢↙↙ = gwyddbwyll

## Ffont Ffansi

Ysgrifennwch eich geiriau sillafu ar y cyfrifiadur. Newidiwch y ffont ac ysgrifennu'r geiriau eto. Newidiwch y ffont eto ...

## MAWR a bach

Ysgrifennwch eich geiriau sillafu ddwywaith

- y tro cyntaf mewn PRIF LYTHRENNAU
- yr ail dro mewn llythrennau bach

E.e. TORRI torri

## Geiriau 3D

Defnyddiwch glai i lunio eich geiriau sillafu

## Ar draws ac i lawr

Ysgrifennwch eich geiriau ar draws, ac yna i lawr o'r llythyren gyntaf.

E.e.

| | | |
|---|---|---|
| E.e. | m a t | t r i |
| | a | r |
| | t | i |

## Arwyddo Geiriau

Defnyddiwch iaith arwyddo gyda'ch bysedd i sillafu'r geiriau ar y rhestr sillafu.

http://unitykid.com/signlanguage.html

Edrychwch ar y wefan i'ch helpu!

## Ysgrifennu yn yr awyr!

Ysgrifennwch eich gair yn yr awyr o'ch blaen gan ddefnyddio eich bys.

Ydych partner sy'n edrych dros eich ysgwydd yn gallu darllen y geiriau?

## Geiriau Asiant Dirgel

Rhifwch lythrennau'r wyddor 1 — 29.
E.e. a = 1, b = 2, c = 3
Newidiwch eich geiriau i gôd rhifau.

Ysgrifennwch y geiriau'n llawn ar ôl y côd rhif.

## Ysgrifennu Cefn

Defnyddiwch eich bys i ysgrifennu llythyren ar y tro ar gefn eich partner.

Ydy'r partner yn gallu dyfalu'r gair?

Eich tro chi nesa, ydych chi'n gallu dyfalu'r gair nesa ar y rhestr?

## Sill-af-u!

Bloeddiwch lythyrennau'r gair wrth ei sillafu.

Chwifiwch eich breichiau'n uchel am lythrennau uchel (e.e. h, l), breichiau ar eich ochrau i lythrennau maint cyffredin (e.e. e, s) a breichiau i lawr wrth eich ochrau i'r llythrennau isel (e.e. y, g)

## Tren Geiriau

Ysgrifennwch eich geiriau sillafu un ar ôl y llall fel trên hir. Defnyddiwch liw gwahanol i bob gair newydd.
E.e. llawbawnawrhawsawl

## Dotiau di-ri

Gwnewch 4 res o ddotiau, 4 ym mhob rhes. Os caiff gair ei sillafu'n gywir, cewch gysylltu 2 ddot. Y nod yw creu'r mwyaf o sgwariau wrth gysylltu'r dotiau am eich bod wedi sillafu'r mwyaf o eiriau'n gywir.

## Geiriau Graean

Ysgrifennwch eich geiriau gyda'ch bys yn y tywod llaith.

Cofiwch dacluso a golchi'ch dwylo wedyn!

## Hopsgots

Defnyddiwch sialc i greu grid hopsgots ar y llwybr. Rhowch lythrennau yn lle rhifau yn y grid. Neidiwch o lythyren i lythyren i greu ei geiriau.

## Parau Perffaith

Ysgrifennwch eich gair ar ddau gerdyn. Gwnewch felly ar gyfer pob gair sydd ar eich rhestr. Trowch y cardiau wyneb i waered. Trowch 2 gerdyn, gan ddweud y gair yn uchel. Os ydynt yn bâr, cadwch hwynt. Os nad ydynt, trowch nhw'n ôl.

## Geiriau Mewn Print

Defnyddiwch hen bapurau a chylchgronau i ddod o hyd i'ch geiriau neu lythrennau i greu eich geiriau.

Torrwch nhw allan a'u gludo ar eich papur.

## Amlinelliad Geiriau

Ysgrifennwch eich geiriau ar bapur graff. Amlinellwch siâp y gair â phensil lliw.

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | | |

## Rholio Geiriau

Rholiwch bêl rhyngoch chi a'ch ffrind. Bob tro y byddwch yn rholio dywedwch lythyren y gair—1af i ddweud y llythyren gyntaf, 2il i ddweud yr ail ac ati.

## Ffont Ffont Ffont

Teipiwch eich geiriau ar y cyfrifiadur. Defnyddiwch ffont gwahanol bob tro. Gallwch newid y lliw bob tro hefyd os ydych eisiau.

# Geiriau Pasta

Defnyddiwch Pasta'r Wyddor i greu eich geiriau.
Gludwch ar ddarn o bapur

# Sain Geiriau

Defnyddiwch chwaraeydd tâp i recordio eich llais yn dweud y gair ar y rhestr a'i sillafu fesul llythyren.
Chwaraewch y tâp yn ôl a gwiriwch i weld os oeddech yn gywir.

# Llaw Dde, Llaw Chwith

Ysgrifennwch eich geiriau yn y modd arferol.
Yna, ceisiwch ysgrifennu'r geiriau gyda'ch llaw arall!

# Geiriau Heb Gytseiniaid

Ysgrifennwch eich geiriau mewn rhestr, ond yn lle ysgrifennu cytseiniaid, rhowch linell. Yna ewch yn ôl dros eich rhestr a cheisiwch lenwi'r bylchau cytseiniaid yn gywir.

## Cardiau Fflach Sillafu

Gwnewch set o gardiau fflach o'ch geiriau sillafu. Wrth i'ch partner ddal un gair i fyny, darllenwch y gair yn uchel, ac yna ei sillafu.

*E.e. baner b-a-n-e-r*

## Ysgrifennu Goleuedig

**Mewn ystafell dywyll, defnyddiwch fflachlamp i sillafu eich geiriau yn yr awyr.**

Rhaid i'ch partner sefyll tu ôl i chi a dweud beth yw'r gair wrth 'ddarllen y golau'!

Yna, newidiwch drosodd!

## Sgrabl!

Defnyddiwch deils Sgrabl i sillafu eich geiriau.

Sawl pwynt a gewch wrth bob gair?

## Geiriau Heb Lafariaid

Ysgrifennwch eich geiriau mewn rhestr, ond yn lle ysgrifennu llafariaid, rhowch linell. Yna ewch yn ôl dros eich rhestr a cheisiwch lenwi'r bylchau llafariaid yn gywir.

